# Tasg 1

**(Heriol, sbardun 3)**

1. Mae naws deheuol i iaith Neges 2. Newidiwch yr iaith i fod yn fwy gogleddol.

Sa i yn bersonol yn cal mynd ar Facebook na Twitter, dim ond msn a phethe felna ar BBC. Mae mam a dad yn meddwl bod rheini yn ddiogel! Wi'n credu y gall pobl fyw hebddyn nhw.

2. Mae 6 camgymeriad (gan gynnwys 1 gair Saesneg) yn Neges 10. Cywirwch nhw!

Mae'n siwr eu bod yn hawdd mynd yn hooked ar Facebook a Twitter os ydych yn berson busneslyd! Y bobl mae gen i biti dros nhw ydy'r rhai sydd ar Facebook a Twitter o hyd ac o hyd am bod nhw'n unig. Does gan nhw ddim ffrindiau go iawn. Pobl eraill mae gen i biti drostyn nhw ydy'r rhai syn rhoi lluniau o nhw eu hunain ar Facebook – pobl sydd mewn cariad â nhw eu hunain yn fy marn i!

| ANGHYWIR | CYWIR |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

3. Edrychwch ar y negeseuon eto. Yna, mewn grwpiau trafodwch y negeseuon a phenderfynwch:

- Pa un yw'r neges fwyaf cymysglyd?
- Pa neges sy'n mynegi barn gryfaf?
- Beth yw eich barn chi fel grŵp

Cofiwch ddefnyddio rhesymau a theystiolaeth wrth drafod!